

**Hafan Wen
Watery Road
Wreccsam
LL13 7NQ**

Adroddiad Arolygu 2010-2011

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Heol y Fan
CAERFFILI
CF83 3ED**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 029 20 928850
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 029 20 928877
Gwefan: www.hiw.org.uk



Dyddiad yr Arolygiad:	Rheolwr Arolygu:
7 Chwefror 2011	Mr John Powell

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ddarparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru fod wedi eu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). AGIC sy'n rheoleiddio gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru sydd, yn rhinwedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi'u dynodi fel yr awdurdod cofrestru.

I gofrestru, mae'n rhaid iddynt ddangos cydymffurfiaid â Deddf Safonau Gofal 2000 a'r rheoliadau cysylltiedig. Mae AGIC yn profi cydymffurfiaid darparwyr trwy asesu pob asiantaeth a sefydliad cofrestredig yn erbyn cyfres o '*Safonau Gofynnol Cenedlaethol*,' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac sy'n nodi'r safonau gofynnol ar gyfer gwahanol fathau o wasanaethau iechyd annibynnol. Gellir gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â'r safonau a'r rheoliadau ar ein gwefan:

www.hiw.org.uk

Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad hwn yw adlewyrchu canfyddiadau'r digwyddiad arolygu. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser.

Cefndir a'r Prif Ganfyddiadau

Cynhaliwyd arolygiad dirybudd o ysbyty Hafan Wen ar 7 Chwefror 2011 gan reolwr arolygu ac un adolygwr gofal iechyd annibynnol AGIC. Cofrestrwyd yr ysbyty gyntaf ym mis Ionawr 1997 ac mae wedi'i gofrestru ar hyn o bryd i dderbyn 25 o gleifion dros 18 oed ar gyfer dadwenwyno o ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol.

Gweithredir Hafan Wen gan CAIS Cyf; mae'r sefydliad wedi'i leoli ar dir Ysbyty Maelor Wrecsam ac mae'n hawdd ei gyrraedd mewn car, ar fws neu ar droed. Mae digon o leoedd parcio ar gael o amgylch y safle.

Mae gan Hafan Wen gontract i ddarparu gwelyau dadwenwyno o gyffuriau ac alcohol i'r GIG yng Ngogledd Cymru a rhai o'r Timau Cyffuriau ac Alcohol yn Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr. Prynir y gwasanaeth yn ôl galw gan y GIG ar draws gweddill Cymru hefyd, a chan gleifion a ariennir yn breifat ar adegau. Mae'r holl gleifion a dderbynnir i Hafan Wen yn cael eu hatgyfeirio o dimau Cyffuriau ac Alcohol Cymunedol statudol ac maent yn parhau i fod yn gleifion y tîm hwnnw trwy gydol eu harhosiad. **Nid** yw'r uned yn cynnig darpariaeth i gadw pobl yn gaeth dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Fodd bynnag, ceir llawer o gyfyngiadau personol oherwydd natur y gwasanaeth. Hysbysir y cleifion yn llawn am y cyfyngiadau hyn ac mae'n ofynnol iddynt gydsynio iddynt fel rhan o'r amodau a'r telerau derbyn. Mae hyn yn cynnwys cyfyngiadau ar ymweliadau a mynediad y tu allan i'r safle. Mae'r uned yn ddiogel ac mae'r staff yn rheoli mynediad i mewn ac allan o'r adeilad. Mae camerâu teledu cylch cyfyng yn cynyddu diogelwch yr adeilad ac maent wedi'u lleoli ar y tu allan i'r adeilad ac ar y tai allan.

Yn rhan o'r broses arolygu, cyflwynodd y darparwr cofrestredig ffurflen hunanasesu wedi'i chwblhau ac amrywiaeth eang o ddogfennau ategol i ddangos sut y maent yn bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol. Canolbwyntiodd yr arolygiad ar ddadansoddi amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys archwilio cofnodion cleifion, a thrafodaeth â'r rheolwr ac amrywiaeth o aelodau staff a gyflogir yn yr ysbyty. Cyfwelwyd nifer o gleifion hefyd a defnyddiwyd yr adborth a gafwyd gan gleifion ac aelodau'r staff yn yr adroddiad hwn.

O ran prif ganfyddiadau'r arolygiad, roedd y darparwr cofrestredig wedi sefydlu:

- Datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion cynhwysfawr.
- System o ddogfennau gofal a oedd yn cynnwys: hanes y claf, contract gofal, ffurflen caniatâd ar gyfer triniaeth, asesiad risg, dogfennau cynllun gofal a chrynodeb rhyddhau. Cofnodwyd hefyd bod yr holl gleifion wedi cael archwiliad corfforol pan y'u derbyniwyd i'r ysbyty. Roedd tystiolaeth y rhoddwyd ystyriaeth i safbwyntiau'r cleifion am eu gofal a'u triniaeth, gan gynnwys y drefn feddyginiaeth a sgil-efeithiau hysbys. Yn ogystal, roedd nodiadau'r cleifion wedi'u cyfuno i greu un cofnod amlddisgyblaethol.

- Amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau, gyda'r dyddiad y'u lluniwyd a'r dyddiad y bwriadwyd eu hadolygu wedi'u nodi arnynt. Yn ogystal, roedd aelodau'r staff wedi dechrau llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen y polisiâu a'r gweithdrefnau a oedd yn berthnasol i'w meysydd gwaith.
- Roedd rhaglen hyfforddiant staff wedi ei sefydlu a oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys: amddiffyn plant, cymorth cyntaf ac anaffylacsis, dadebru cardio-anadlol (CPR) a defnyddio diffibriliwr, swyddog tân a hyfforddiant ar effeithiolrwydd triniaeth. Fodd bynnag, roedd nifer o aelodau staff nad oeddynt wedi mynychu hyfforddiant ar Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), arfer gwrthwahananiaethol, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, yr hyn sy'n cynrychioli cwyn a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.
- Cynigiwyd amrywiaeth o weithgareddau/therapiau gan gynnwys: amrywiaeth o gemau, campfa, pŵl, pêl-droed a thenis bwrdd, celf a chrefft, technoleg gwybodaeth, hybu iechyd, aciwbigo a therapi ymlacio. Roedd *'rhaglen atal ailwaelu'* wedi ei sefydlu hefyd. Er y cydnabyddir bod amrywiaeth o weithgareddau ar gael, roedd yr adborth gan gleifion yn feirniadol o'r ffaith nad oedd strwythur i'w diwrnod, gan ddweud y gallai diwrnodau fod yn hir.
- Bu nifer o feysydd yn destun archwiliad gan gynnwys; y broses nyrsio, nodiadau achos, cyffuriau rheoledig, yr amgylchedd, cwynion a chanmoliaeth, a llywodraethu clinigol. Fodd bynnag, nid oedd y rhaglenni archwilio'n cynnwys y defnydd o wybodaeth gymharol am ganlyniadau clinigol, a gwerthuso yn erbyn canfyddiadau ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Cynhaliwyd arolwg cleifion yn 2010 ac roedd dadansoddiad o'r canlyniadau ar gael. Yn gyffredinol, roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn. Nodwyd nifer o bwyntiau gweithredu yn dilyn y dadansoddiad ac roedd tystiolaeth y rhoddwyd sylw i'r rhain.
- Roedd tystiolaeth eglur fod y broses o reoli cyflyrau penodol cleifion yn ystyried canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE).

O ran canfyddiadau eraill yr arolygiad, roedd y cleifion yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn teimlo'n ddiogel. Gwelwyd perthynas dda rhwng y cleifion ac aelodau'r staff trwy gydol yr ymweliad arolygu.

Roedd gwasanaeth eirioli a gweithdrefn gwyno ar gael i'r cleifion. Cyn yr ymweliad arolygu, cyflwynwyd dadansoddiad o'r cwynion a dderbyniwyd; roedd y wybodaeth yn cynnwys natur y gŵyn, amserlenni a'r camau a gymerwyd. Cedwid cofnod manwl o gwynion yn y sefydliad. Fodd bynnag, nid oedd y gwasanaeth wedi datblygu unrhyw ddatganiad ynglŷn â hawliau cleifion.

Roedd cleifion yn cael eu derbyn ar gyfer dadwenwyno o alcohol am bythefnos fel rheol, a'u derbyn ar gyfer dadwenwyno o gyffuriau am rhwng tair a phedair wythnos. Roedd derbyniadau estynedig yn ôl disgresiwn yr ymgynghorydd. Rhoddir blaenoriaeth i dderbyn unrhyw fenywod sy'n feichiog ac estynnir y cyfnod derbyn. Rhagnodir triniaethau dadwenwyno meddygol yr holl gleifion ac maent yn aros dan ofal seiciatrydd ymgynghorol y GIG tra eu bod yn yr ysbyty, ac yn cael adolygiadau meddygol rheolaidd yn yr uned. Mae'r triniaethau'n cynnwys cychwyn, lleihau a sefydlogi rhaglenni dadwenwyno ffarmacolegol.

Roedd yn ofynnol i'r cleifion gytuno i brofion troeth neu anadl yn ystod eu derbyniad er mwyn monitro eu cynnydd o ran dadwenwyno a'u cydymffurfiad â'r rhaglenni. Gallai canlyniadau profion sy'n dangos camddefnydd parhaus o sylweddau arwain at ryddhau'r claf yn orfodol o'r uned.

O ran y maes rheoli meddyginiaeth, cynhaliwyd trosolwg byr o archebu, cadw, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau. Cedwir amrywiaeth o '*gyffuriau rheoledig*' yn y sefydliad, ond nid oedd meddyginiaeth nas defnyddiwyd ers cryn amser wedi ei dychwelwyd i'r adran fferylliaeth na'i gwirio fel mater o drefn yn unol â pholisi'r ysbyty. Mae'n rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â Rheoliadau Cyffuriau Rheoledig (Goruchwyllo Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008. Yn ogystal, rhoddwyd meddyginiaeth i glaf heb fod siart presgripsiwn ar gael oherwydd ei fod yn yr adran fferylliaeth. Nid oedd y dyddiad agor wedi'i nodi ar ddiferion clustiau a oedd yn cael eu rhoi. Roedd Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain, dyddiedig Medi 2010, ar gael

fel ffynhonnell gyfeirio berthnasol ac roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau yn ymwneud â maes rheoli meddyginiaeth ar gael yn y sefydliad. Nid oedd y cleifion yn rhoi meddyginiaeth i'w hunain.

Mae Ysbyty Maelor Wrecsam yn darparu gwasanaeth arlwygo ar gyfer Hafan Wen trwy gontract. Darperir dau bryd poeth y dydd ac roedd ffrwythau a diodydd poeth ar gael yn rhwydd. Roedd y cleifion yn feirniadol o ansawdd y bwyd, y dewis ohono a'i dymheredd pan oedd yn cael ei weini iddynt. Roedd gan Hafan Wen ystafell arlwygo, ond roedd yn y broses o gael ei hadnewyddu'n llwyr fel y gallai'r sefydliad ddarparu ei wasanaeth arlwygo ei hun.

O ran yr amgylchedd, adeilad deulawr yw Hafan Wen a cheir mynediad i'r llawr cyntaf trwy lifft. Ceir 25 o ystafelloedd gwely sengl gyda chyfleusterau cawod a thoiled *en-suite* a cheir dwy lolfa/ystafell fwyta gymunedol gyda mannau i baratoi byrbrydau ar bob llawr. Mae teledu lloeren yn y lolfeydd ac mae cyfleusterau i'r staff, swyddfeydd ac ystafelloedd ymgynghori'r meddygon wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod. Yn ogystal, roedd nifer o ystafelloedd therapi ar gael ar gyfer technoleg gwybodaeth, aciwbigo ac ymlacio. Fodd bynnag, roedd blwch trydan wedi'i leoli mewn ystafell 'ymlacio' a grëwyd yn ddiweddar ac roedd y clo wedi torri, felly roedd cleifion ac aelodau'r staff yn gallu agor y blwch. Roedd arwydd arno yn nodi 'Perygl – 415 o foltiau.' Dywedodd y rheolwr wrth y rheolwr arolygu y byddai'r sefyllfa hon yn cael ei datrys o fewn 24 awr ac y byddai'r clo yn cael ei atgyweirio neu ei newid. Roedd nifer o'r dyfeisiau i gyfyngu ar agor ffenestri yn y sefydliad wedi torri hefyd. O ran yr amgylchedd, nid oedd tystiolaeth o unrhyw asesiadau risg, gan gynnwys asesiadau risg rhwymynnau.

Nid oedd unrhyw gofnod bod aelodau'r staff wedi cymryd rhan mewn ymarfer tân ers mis Medi 2008 ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o hyfforddiant ar atal tân.

Ceir rhestr ganolog o nyrsys cofrestredig a chedwir y rhifau adnabod, ond nid oedd rhaglen tiwtoriaeth ac asesu wedi'i sefydlu ar gyfer nyrsys a oedd newydd eu cofrestru. Yn ogystal, nid oedd unrhyw ddogfennau i gadarnhau bod ymarferwyr meddygol wedi'u cofrestru â'r corff proffesiynol priodol.

Nid oedd unrhyw gofnodion brechiadau ar gael ar gyfer aelodau staff a gyflogir yn y sefydliad, ac felly ni ellid cadarnhau pa un a oeddent wedi cael y brechiadau priodol ai peidio.

Hoffai'r rheolwr arolygu ddiolch i'r rheolwr, aelodau'r staff a'r cleifion am eu hamser a'u cydweithrediad yn ystod yr ymweliad arolygu.

Llwyddiannau a Chydymffurfiad

Nodwyd deg gofyniad rheoliadol yn yr adroddiad arolygu blaenorol. Derbyniwyd cynllun gweithredu a rhoddwyd sylw i saith o'r gofynion. Roedd y tri gofyniad nad oeddynt wedi eu bodloni yn ymwneud â'r canlynol:

- Dylai'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod polisi wedi'i sefydlu sy'n cyfeirio at Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Cynulliad Cymru, ac sy'n rhoi ystyriaeth i amgylchiadau lle y gallai gwaith ymchwil gael ei wneud gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol wrth astudio ar gyfer cymwysterau proffesiynol, neu gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a gyflogir o fewn yr Ymddiriedolaeth.
- Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig wneud darpariaeth i amddiffyn preifatrwydd ac urddas defnyddwyr gwasanaeth gwrywaidd a benywaidd.
- Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig gynnwys hyfforddiant ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol a chael caniatâd cytbwys yn y rhaglen hyfforddiant staff.

O ran llwyddiannau, cyflogwyd cydgysylltydd gweithgareddau therapiwtig llawn amser ers yr arolygiad blaenorol ac roedd amrywiaeth y gweithgareddau a oedd ar gael i'r cleifion wedi gwella o ganlyniad.

Mathau o Gofrestriad

Caniateir y cofrestriad hwn yn unol â'r math o wasanaeth a ddarperir. Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y math canlynol o wasanaeth.

Disgrifiad

Ysbyty annibynnol â gwelyau dros nos sy'n darparu triniaeth feddygol i bobl 18 mlwydd oed a hŷn sydd angen triniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Mae'r cofrestriad hwn yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol. Archwilir pob amod ar gyfer cydymffuriad. Disgrifir y dyfarniad fel bod yn Cydymffurfio, Ddim yn Cydymffurfio neu Sicrwydd Annigonol.

Amodau'r Cofrestriad

Rhif yr Amod	Amod y Cofrestriad	Dyfarniad
1.	Ni chaiff cyfanswm nifer yr unigolion sy'n derbyn llety yn yr ysbyty ar unrhyw un adeg fod yn fwy na phump ar hugain (25).	Cydymffurfio
2.	Cytunir ar y lefelau staffio i adlewyrchu'r gofal a ddarperir yn yr uned fel a ganlyn: <u>Dydd Llun i Ddydd Mercher</u> (diwrnodau derbyn) <u>7.30 a.m. tan 5.00 p.m.</u> 3 Nyrs Iechyd Meddwl Gofrestredig (RMN), a 2 Gynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 5 a'r Rheolwr) <u>5.00 p.m. tan 8.00 p.m.</u> 2 RMN, ac 1 Cynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 3) <u>8.00 p.m. tan 7.30 a.m.</u> 1 RMN, a 2 Gynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 3) <u>Dydd Iau a Dydd Gwener</u> (dim derbyniadau) <u>7.30 a.m. tan 5.00 p.m.</u> 2 RMN, a 2 Gynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 4 a'r Rheolwr) <u>5.00 p.m. tan 8.00 p.m.</u> 2 RMN, ac 1 Cynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 3)	Nid yw'n cydymffurfio gan nad oedd yr uned yn gweithredu i'w gallu llawn

Rhif yr Amod	Amod y Cofrestriad	Dyfarniad
	<u>8.00 p.m. tan 7.30 a.m.</u> 1 RMN, a 2 Gynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 3) Mae'r Rheolwr Cofrestredig ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 9.00 a.m. tan 5.00 p.m., ac mae'n ychwanegol i'r uchod. <u>Dydd Sadwrn a Dydd Sul</u> <u>7.30 a.m. tan 5.00 p.m.</u> 2 RMN, a 2 Gynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 4) <u>5.00 p.m. tan 8.00 p.m.</u> 2 RMN, ac 1 Cynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 3) <u>8.00 p.m. tan 7.30 a.m.</u> 1 RMN, a 2 Gynorthwy-ydd Gofal (cyfanswm o 3)	
3.	Bydd y darparwr cofrestredig, gan ystyried maint yr ysbyty, y datganiad o ddiben a nifer ac anghenion y defnyddwyr gwasanaeth, yn: <i>'sicrhau bod unigolion cymwys, medrus a phrofiadol a chanddynt gymwysterau priodol yn gweithio yn yr ysbyty bob amser mewn niferoedd sy'n briodol i sicrhau iechyd a lles y defnyddwyr gwasanaeth.'</i>	Cydymffurfio

Asesiadau

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cynnal archwiliadau o safleoedd er mwyn asesu safonau. Pe byddem yn canfod meysydd lle nad yw'r darparwr yn bodloni'r safonau gofynnol neu lle nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau, neu nad oes gennym ddigon o dystiolaeth i ddangos y cyflawnir y lefel ofynnol o berfformiad, rhoddir gwybod i'r unigolyn cofrestredig am hyn drwy gyfrwng yr adroddiad arolygu hwn. Gall fod achlysuron hefyd pan ganfyddir methiannau mwy difrifol neu sydd angen sylw di-oed, ac efallai bod yr unigolyn cofrestredig hefyd wedi'i hysbysu ynglŷn â'r canfyddiadau a'r camau sydd i'w cymryd trwy lythyr, ond bydd y materion hynny hefyd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad arolygu hwn. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn penderfynu ar yr angen i arolygu'r sefydliad a pha mor aml y dylid gwneud hynny ar sail y wybodaeth a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani ers cynnal yr arolygiad diwethaf. Cyn cynnal arolygiad, bydd

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ystyried y wybodaeth sydd ganddi am unigolyn cofrestredig. Gallai hyn gynnwys: hunanasesiad yn erbyn y safonau, canfyddiadau'r adroddiad arolygu blaenorol ac unrhyw gynllun gweithredu a gyflwynwyd, adroddiadau ynglŷn ag ymweliadau'r darparwr, y Datganiad o Ddiben ar gyfer y sefydliad neu'r asiantaeth, ac unrhyw gwynion neu wybodaeth sy'n peri pryder am yr unigolyn cofrestredig a'r gwasanaethau.

Wrth asesu pob safon, yr ydym yn defnyddio pedwar datganiad i nodi'r canlyniad:

Safon wedi ei bodloni	Dim diffygion: yn cyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.
Safon bron wedi ei bodloni	Mân ddiffygion: dim diffygion mawr a'r lefelau gofynnol o berfformiad yn ymddangos yn gyraeddadwy heb orfod cymryd camau ychwanegol o bwys.
Safon heb ei bodloni	Diffygion difrifol: angen cymryd camau sylweddol i gyflawni'r lefelau gofynnol o berfformiad.
Safon heb ei harolygu	Mae hyn naill ai oherwydd nad oedd y safon yn berthnasol, neu oherwydd na nodwyd unrhyw risg yn dilyn asesiad o'r wybodaeth a dderbyniwyd gan y sefydliad neu'r asiantaeth neu am y sefydliad neu'r asiantaeth, ac felly penderfynwyd nad oedd angen archwilio'r safon ymhellach yn ystod yr arolygiad hwn.

Asesiadau a Gofynion

Mae'r asesiadau wedi eu rhoi mewn grwpiau dan y penawdau canlynol, a cheir cyfeirnod ar gyfer pob safon:

- Safonau Craidd
- Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth

Talfyriadau ar gyfer y Safonau:

C = Safonau craidd

A = Safonau aciwt

MH = Safonau iechyd meddwl

H = Safonau hosbis

MC = Safonau mamolaeth

TP = Safonau terfynu beichiogrwydd

P = Safonau technegau a thechnoleg rhagnodedig

PD = Safonau meddygon preifat

Os nad yw'r unigolyn cofrestredig wedi llwyr fodloni unrhyw un o'r safonau isod, yr ydym wedi nodi ein canfyddiadau a'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r rheoliad penodol ar ddiwedd yr adroddiad. Gall peidio â chydymffurfio â rheoliad fod yn drosedd. Mae'n rhaid i ddarllenwyr fod yn ymwybodol mai diben yr adroddiad yw adlewyrchu canfyddiadau'r arolygydd yn ystod y digwyddiad arolygu penodol. Ni ddylai darllenwyr ddod i'r casgliad bod amgylchiadau'r gwasanaeth yr un fath bob amser. Weithiau bydd gwasanaethau'n gwella ac weithiau byddant yn dirywio.

Nid ysbyty iechyd meddwl yw Hafan Wen, ond mae llawer o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer ysbytai iechyd meddwl, yn enwedig o ran rheoli risg, yn briodol i'r gwasanaeth.

Safonau Craidd

Rhif	Testun y Safon	Asesiad
C1	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth eglur a chywir am eu triniaeth.	Safon wedi ei bodloni
C2	Mae'r driniaeth a'r gofal a ddarperir yn rhoi'r claf yn gyntaf.	Safon wedi ei bodloni
C3	Mae'r triniaethau a roddir i gleifion yn unol â chanllawiau clinigol perthnasol.	Safon wedi ei bodloni
C4	Sicrheir cleifion bod ansawdd y driniaeth a'r gofal yn cael ei fonitro.	Safon bron wedi ei bodloni
C5	Ymdrinnir â gofal terfynol a marwolaeth cleifion yn briodol ac yn sensitif.	Safon heb ei harolygu
C6	Mae'r sefydliad yn cael barn cleifion ac yn defnyddio'r wybodaeth wrth ddarparu triniaeth a gofal, ac ar gyfer darpar gleifion.	Safon wedi ei bodloni

Rhif	Testun y Safon	Asesiad
C7	Mae polisïau a gweithdrefnau priodol wedi eu sefydlu er mwyn cynorthwyo i sicrhau ansawdd y driniaeth a'r gwasanaethau.	Safon bron wedi ei bodloni
C8	Sicrheir cleifion bod y sefydliad neu'r asiantaeth yn cael ei redeg/rhedeg gan sefydliad/unigolyn addas a bod llinell eglur o atebolrwydd ar gyfer darparu'r gwasanaethau.	Safon wedi ei bodloni
C9	Mae cleifion yn derbyn gofal gan staff sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon wedi ei bodloni
C10	Mae cleifion yn derbyn gofal gan nyrsys sydd wedi eu cofrestru'n briodol sydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r arbenigedd perthnasol i ddarparu gofal i gleifion yn ddiogel ac yn effeithiol.	Safon bron wedi ei bodloni
C11	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr sydd wedi eu recriwtio a'u hyfforddi'n briodol ac sy'n meddu ar gymwysterau priodol.	Safon bron wedi ei bodloni
C12	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ymarferwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n cydymffurfio â'u codau ymarfer proffesiynol.	Safon heb ei harolygu
C13	Nid yw'r cleifion na phersonél wedi eu heintio â firsau a gludir yn y gwaed.	Safon heb ei bodloni
C14	Caiff plant sy'n derbyn triniaeth eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon heb ei harolygu
C15	Caiff oedolion sy'n derbyn gofal eu hamddiffyn yn effeithiol rhag cael eu cam-drin.	Safon bron wedi ei bodloni
C16	Mae proses gwyno effeithiol ar gael i gleifion.	Safon bron wedi ei bodloni
C17	Mae cleifion yn derbyn gwybodaeth briodol ynglŷn â sut i wneud cwyn.	Safon wedi ei bodloni
C18	Mae'n ddyletswydd ar staff a phersonél i fynegi pryderon ynglŷn ag arfer amheus neu wael.	Safon wedi ei bodloni
C19	Mae cleifion yn derbyn triniaeth mewn safle sy'n ddiogel ac yn briodol ar gyfer y driniaeth honno. Darperir amgylchedd addas i blant a dderbynnir neu sy'n mynychu'r safle i gael triniaeth.	Safon bron wedi ei bodloni
C20	Mae cleifion yn derbyn triniaeth gan ddefnyddio offer a chyflenwadau sy'n ddiogel ac mewn cyflwr da.	Safon wedi ei bodloni
C21	Mae cleifion yn derbyn gwasanaethau arlwyu priodol.	Safon bron wedi ei bodloni
C22	Sicrheir cleifion, staff ac unrhyw un sy'n dod i ymweld â'r safle cofrestredig y caiff yr holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r sefydliad, y triniaethau a'r gwasanaethau eu nodi, eu hasesu a'u rheoli'n briodol.	Safon bron wedi ei bodloni

Rhif	Testun y Safon	Asesiad
C23	Mae'r camau iechyd a diogelwch priodol wedi eu sefydlu.	Safon heb ei harolygu
C24	Mae camau wedi eu sefydlu i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu rheoli a'u trin yn ddiogel.	Safon wedi ei bodloni
C25	Caiff meddyginiaethau, rhwymau a nwyon meddygol eu trin mewn modd saff a diogel.	Safon bron wedi ei bodloni
C26	Caiff cyffuriau rheoledig eu cadw, eu rhoi a'u dinistrio yn briodol.	Safon bron wedi ei bodloni
C27	Mae'r risg i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal haint a gafwyd yn yr ysbyty yn cael ei lleihau cymaint â phosibl.	Safon wedi ei bodloni
C28	Ni roddir triniaeth i gleifion drwy ddefnyddio dyfeisiau meddygol halogedig.	Safon wedi ei bodloni
C29	Caiff cleifion eu dadebru'n briodol ac yn effeithiol.	Safon wedi ei bodloni
C30	Mae contractau'n sicrhau bod cleifion yn derbyn nwyddau a gwasanaethau o ansawdd priodol.	Safon wedi ei bodloni
C31	Caiff cofnodion eu creu, eu cynnal a'u storio i safonau sy'n bodloni cydymffuriad cyfreithiol a rheoliadol ac argymhellion arfer proffesiynol.	Safon heb ei harolygu
C32	Sicrheir cleifion y cwblheir cofnodion iechyd yn briodol.	Safon wedi ei bodloni
C33	Rhoddir sicrwydd i gleifion y rheolir yr holl wybodaeth o fewn y corff rheoledig er mwyn sicrhau cyfrinachedd cleifion.	Safon bron wedi ei bodloni
C34	Caiff unrhyw waith ymchwil a gynhelir yn y sefydliad / asiantaeth ei gynnal gyda chaniatâd priodol y cleifion perthnasol, yn unol â chanllawiau cyhoeddedig ynglŷn â chynnal prosiectau ymchwil.	Safon heb ei bodloni

Safonau sy'n Benodol i'r Gwasanaeth – mae'r rhain yn benodol i'r math o sefydliad a archwiliwyd

Rhif	Safonau Ysbyty Iechyd Meddwl	Asesiad
M1	Gweithio yn unol â'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl	Safon wedi ei bodloni
M2	Cyfathrebu rhwng y staff	Safon wedi ei bodloni
M3	Cyfrinachedd cleifion	Safon wedi ei bodloni
M4	Archwiliad clinigol	Safon bron wedi ei bodloni

M5	Niferoedd staff a chymysgedd sgiliau	Safon bron wedi ei bodloni
M6	Hyfforddiant staff	Safon bron wedi ei bodloni
M7	Asesu a rheoli risgiau	Safon bron wedi ei bodloni
M8	Atal hunanladdiad	Safon bron wedi ei bodloni
M9	Gweithdrefnau dadebru	Safon wedi ei bodloni
M10	Cyfrifoldeb dros wasanaethau fferyllol	Safon wedi ei bodloni
M11	Y Dull Rhaglen Ofal / rheoli gofal	Safon heb ei harolygu
M12	Derbyn ac asesu	Safon heb ei harolygu
M13	Y Dull Rhaglen Ofal: cynllunio ac adolygu gofal	Safon heb ei harolygu
M14	Gwybodaeth i gleifion am eu triniaeth	Safon wedi ei bodloni
M15	Cleifion ag anableddau datblygiadol	Safon heb ei harolygu
M16	Therapi Electrogynhyrfol (ECT)	Safon heb ei harolygu
M17	Rhoi meddyginiaeth	Safon wedi ei bodloni
M18	Hunanfeddyginiaethu	Safon heb ei harolygu
M19	Triniaeth ar gyfer dibyniaeth	Safon wedi ei bodloni
M20	Trosglwyddo cleifion	Safon heb ei harolygu
M21	Rhyddhau cleifion	Safon wedi ei bodloni
M22	Cofnodion cleifion	Safon wedi ei bodloni
M23	Grymuso	Safon wedi ei bodloni
M24	Trefniadau ymweld	Safon wedi ei bodloni
M25	Gweithio gyda gofalwyr ac aelodau'r teulu	Safon heb ei harolygu
M26	Arfer gwrthwahanïaethol	Safon heb ei bodloni

M27	Ansawdd bywyd cleifion	Safon bron wedi ei bodloni
M28	Arian cleifion	Safon heb ei harolygu
M29	Cyfyngiadau a diogelwch ar gyfer cleifion	Safon wedi ei bodloni
M30	Lefelau arsylwi	Safon wedi ei bodloni
M31	Rheoli ymddygiad cythryblus	Safon wedi ei bodloni
M32	Rheoli digwyddiadau difrifol/anffafriol	Safon wedi ei bodloni
M33	Marwolaeth annisgwyl claf	Safon wedi ei bodloni
M34	Cleifion sy'n dianc	Safon heb ei harolygu
M35	Atal cleifion yn gorfforol ac ymyrraeth gorfforol	Safon heb ei harolygu

Atodlenni Gwybodaeth

Mae'r atodlenni gwybodaeth yn nodi manylion y wybodaeth y mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig ei darparu, ei chadw neu ei chofnodi mewn cofnodion penodol.

Atodlen	Manylion	Asesiad
1	Gwybodaeth i'w chynnwys yn y datganiad o ddiben.	Bodlonwyd
2	Gwybodaeth ofynnol yn ymwneud ag unigolion sy'n dymuno rhedeg, rheoli neu weithio mewn sefydliad.	Bodlonwyd
3 (Rhan I)	Y cyfnod gofynnol ar gyfer cadw cofnodion meddygol.	Bodlonwyd
3 (Rhan II)	Cofnodion y mae'n rhaid eu cadw i'w harchwilio.	Bodlonwyd
4 (Rhan I)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi ynglŷn â chleifion sy'n derbyn gwasanaethau obstetreg.	Amherthnasol
4 (Rhan II)	Manylion y mae'n rhaid eu cofnodi am blentyn a anwyd mewn ysbyty annibynnol.	Amherthnasol

Gofynion

Mae'r gofynion isod yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg cydymffurfio â Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002 a ganfuwyd o ganlyniad i asesu'r safonau a nodir yn y golofn ar y chwith, a gwybodaeth arall a dderbyniwyd gan y darparwr ac amdano/amdani. Cyfrifoldeb yr '*unigolyn cofrestredig*' yw'r gofynion, a

chaiff yr unigolyn hwn fod naill ai'r darparwr cofrestredig neu reolwr cofrestredig y sefydliad neu'r asiantaeth, yn ôl y ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn gofyn i'r unigolyn cofrestredig ddarparu 'cynllun gweithredu' yn cadarnhau sut y mae'n bwriadu cyflawni'r camau gofynnol, a bydd yr Arolygiaeth, os oes angen, yn cymryd camau gorfodi er mwyn sicrhau cydymffurfiaid â'r rheoliad a nodwyd.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C4 ac M4	16 (1)	Canfyddiadau Nid oedd y rhaglenni archwilio'n cynnwys y defnydd o wybodaeth gymharol am ganlyniadau clinigol, a gwerthusiadau yn erbyn canfyddiadau ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ogystal, roedd angen sefydlu a gweithredu fframwaith ym maes llywodraethu clinigol. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y rhaglenni archwilio'n cynnwys y defnydd o wybodaeth gymharol am ganlyniadau clinigol, a gwerthusiadau yn erbyn canfyddiadau ymchwil ac arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn ogystal, mae'n rhaid datblygu a gweithredu fframwaith ym maes llywodraethu clinigol.	O fewn tri mis i dderbyn yr adroddiad hwn.
C10	17 (1) (a) a 17 (2) (a)	Canfyddiadau Nid oedd rhaglen tiwtoriaeth ac asesu wedi ei sefydlu ar gyfer nyrsys a oedd newydd eu cofrestru. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod rhaglen tiwtoriaeth ac asesu gynhwysfawr wedi ei sefydlu ar gyfer nyrsys sydd newydd eu cofrestru.	O fewn mis i dderbyn yr adroddiad hwn.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C11	18 (2) Atodlen 2	Canfyddiadau Nid oedd unrhyw ddogfennau i gadarnhau bod ymarferwyr meddygol wedi'u cofrestru â'r corff rheoleiddio proffesiynol priodol. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod dogfennau priodol ar gael i gadarnhau bod ymarferwyr meddygol wedi'u cofrestru â'r corff rheoleiddio proffesiynol priodol.	Ar unwaith ac yn barhaus.
C15, C16, M5, M6	17 (2) (a)	Canfyddiadau Roedd nifer sylweddol o aelodau'r staff nad oeddynt wedi mynychu hyfforddiant ar Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), arfer gwrthwahanïaethol, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, yr hyn sy'n cynrychioli cwyn a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod holl aelodau'r staff yn derbyn hyfforddiant ar Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (PoVA), arfer gwrthwahanïaethol, y Ddeddf Galluedd Meddyliol, yr hyn sy'n cynrychioli cwyn a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.	O fewn 28 diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.
C19	24 (4) (c) ac (ch)	Canfyddiadau Nid oedd unrhyw dystiolaeth fod holl aelodau'r staff wedi cymryd rhan mewn ymarfer tân ac wedi dilyn hyfforddiant ar atal tân yn ddiweddar. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod holl aelodau'r staff yn cymryd rhan mewn ymarfer tân ac yn dilyn hyfforddiant ar atal tân yn fuan.	Ar unwaith ac yn barhaus.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C21	14 (7)	Canfyddiadau Roedd y cleifion yn feirniadol o ansawdd y bwyd, y dewis ohono a'i dymheredd pan oedd yn cael ei weini iddynt. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod y bwyd a ddarperir yn faethlon ac yn addas i anghenion y cleifion.	Ar unwaith ac yn barhaus.
C22, M7 ac M8	24 (2) (ch)	Canfyddiadau O ran yr amgylchedd, nid oedd tystiolaeth o unrhyw asesiadau risg, gan gynnwys asesiadau risg rhwymynnau. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau y cynhelir asesiadau risg ynglŷn â'r amgylchedd a rhwymynnau.	O fewn 28 diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.
M7	24 (2) (ch)	Canfyddiadau O ran yr amgylchedd, roedd blwch trydan wedi'i leoli mewn ystafell 'ymlacio' a grëwyd yn ddiweddar ac roedd y clo wedi torri, felly roedd cleifion ac aelodau'r staff yn gallu agor y blwch. Roedd arwydd arno yn nodi '<i>Perygl – 415 o foltiau.</i>' Dywedodd y rheolwr wrth y rheolwr arolygu y byddai'r sefyllfa hon yn cael ei datrys o fewn 24 awr ac y byddai'r clo yn cael ei atgyweirio neu ei newid. Yn ogystal, roedd nifer o'r dyfeisiau i gyfyngu ar agor ffenestri yn y sefydliad wedi torri. Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig sicrhau bod pob rhan o'r sefydliad y gall y cleifion fynd iddi yn rhydd o beryglon i'w diogelwch cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.	Ar unwaith ac yn barhaus.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
C26	14 (5)	Canfyddiadau Cedwir amrywiaeth o ‘<i>Gyffuriau Rheoledig</i>’ yn y sefydliad, ond nid oedd meddyginiaeth nas defnyddiwyd ers cryn amser wedi ei dychwelyd i’r adran fferylliaeth na’i gwirio fel mater o drefn yn unol â pholisi’r ysbyty. Camau Gofynnol Mae’n ofynnol i’r unigolyn cofrestredig sicrhau nad yw meddyginiaeth yn cael ei chadw yn y sefydliad fel mater o drefn pan nad oes ei hangen mwyach. Yn ogystal, mae’n rhaid gwirio’r feddyginiaeth fel mater o drefn yn unol â’r polisiau a’r gweithdrefnau.	Ar unwaith ac yn barhaus.
C34	23	Canfyddiadau Nid oedd unrhyw bolisi wedi’i sefydlu yn ymwneud â maes ymchwil. Camau Gofynnol Mae’n ofynnol i’r unigolyn cofrestredig lunio a gweithredu polisi ar ymchwil.	Mae’r gofyniad hwn wedi bod ers tro ac mae’n rhaid anfon polisi i AGIC o fewn saith diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.
M25	14 (1) (a) a 15 (1)	Canfyddiadau Nid oedd y gwasanaeth wedi datblygu unrhyw ddatganiad ynglŷn â hawliau cleifion. Camau Gofynnol Mae’n ofynnol i’r unigolyn cofrestredig ddatblygu a gweithredu datganiad ynglŷn â hawliau cleifion.	O fewn 28 diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.
M27	14 (1) (a) a 15 (1)	Canfyddiadau Roedd y cleifion yn feirniadol o’r ffaith nad oedd strwythur i’w diwrnod, gan ddweud y gallai’r diwrnodau fod yn hir.	O fewn 28 diwrnod i dderbyn yr adroddiad hwn.

Safon	Rheoliad	Gofyniad	Amserlen
		Camau Gofynnol Mae'n ofynnol i'r unigolyn cofrestredig gynnal adolygiad o'r gweithgareddau / therapïau sydd ar gael yn y sefydliad er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y cleifion.	

Argymhellion

Gall argymhellion fod yn berthnasol i agweddau ar y safonau neu i ganllawiau cenedlaethol. Fe'u gwneir er mwyn i'r unigolion cofrestredig eu hystyried ond ni chânt eu gorfodi yn gyffredinol.

Safon	Argymhelliad
C7 ac C33	Dylai holl aelodau'r staff ddarllen y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'w meysydd gwaith a llofnodi datganiad i gadarnhau hynny.
C13	Dylai cofnodion brechiadau fod ar gael ar gyfer aelodau staff a gyflogir yn y sefydliad.
C25	Dylid nodi'r dyddiad agor ar ddiferion clustiau.

Diben bodolaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw hybu gwelliant mewn iechyd a gofal iechyd. Mae gennym ddyletswydd statudol i asesu perfformiad sefydliadau gofal iechyd ar gyfer y GIG, a chydgysylltu adolygiadau gofal iechyd gan eraill. Wrth wneud hyn, ein nod yw lleihau'r baich rheoliadol ar sefydliadau gofal iechyd a chydweddu asesiadau gofal iechyd a ddarperir gan y GIG ag asesiadau'r sector annibynnol (preifat a gwirfoddol).

Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod nad yw ar gyfer adwerthiant masnachol. Dim ond yn ei gyfanrwydd y ceir atgynhyrchu'r adroddiad hwn. Ni cheir ei atgynhyrchu'n rhannol nac ar ffurf gryno ac ni cheir dyfynnu ohono heb ganiatâd ysgrifenedig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r caniatâd hwn yn amodol ar atgynhyrchu'r deunydd yn gywir, ac ar yr amod nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn modd niweidiol na chyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod mai © 2011 Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw'r deunydd, gan nodi teitl y ddogfen. Dylai ceisiadau ar gyfer atgynhyrchu fod yn ysgrifenedig a dylid eu hanfon at: Y Prif Weithredwr, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Tŷ Bevan, Parc Busnes Caerffili, Caerffili CF83 3ED.